PIMS: Pobl Ifanc Minny Street

Prin fod wythnos yn mynd heibio yn Eglwys Minny Street Caerdydd heb fod yna gyfeiriad at *PIMS* yn y cyhoeddiadau! *PIMS* - acronym i ddynodi **P**obl **I**fanc **M**inny **S**treet a'u gweithgarwch. Un o brif freintiau, os nad y mwyaf, o'm haelodaeth yn Minny Street yw cael bod yn rhan o'r gweithgarwch hwn; pleser ac anrhydedd yw cael gweithio gyda'n pobl ifanc. Ynghyd â thrafodaethau ar Fore Sul yn eu Grwp Trafod, eu rôl ganolog yn addoliad yr eglwys trwy gyfrwng y gerddorfa (gweler y llun) ac, yn eu tro, bod yn gyfrifol am yrhannau arweiniol ar ddechrau Oedfa'r Bore, bydd *PIMS* yn cyfarfod ar Nos Lun. Mae clywed a gweld pobl ifanc yr eglwys yn datblygu ac aeddfedu yn eu hamgyffred a'u dealltwriaeth o'u ffydd yn brofiad arbennig iawn (pe byddwn genhedlaeth yn iau byddwn yn dweud ei fod yn wirioneddol '*awesome*'!).

Gyda'r flwyddyn waith yn dirwyn i ben, ac arholiadau ar y gorwel, priodol yw taflu golwg yn ôl dros weithgareddau'r flwyddyn. Hanes y Creu, Genesis, bu'n pwnc trafod eleni. Gan gofio bod ein Gweinidog, Owain Llyr Evans, yn byrlymu o ddiddordeb celfyddydol pa ryfedd i ni fynd ati trwy ddilyn cyfres o saith llun (*Picturing Creation*) gan yr arlunydd o Gernyw, Kate Neal. Bu'r chwilio adnodau, y trafod a'r dadlau ar wahanol agweddau o'r Creu, ei ystyr a'i neges, yn frwd a threiddgar. Cafwyd aml i Nos Lun pan loriwyd Owain Llyr a'i gynorthwywyr gan fanylder a dyfeisgarwch yr holi! Bu'n ddiddorol i Owain a minnau gymharu ymateb *PIMS* ag ymateb ein grwp myfyrwyr, *Wedi 7*. Er mai pynciau a chwestiynau gwahanol a godwyd, bu'r naill grwp yr un mor ddeheuig eu mynnu deall â'r llall.

Yng nghanol y gwaith ymenyddol 'trwm' hwn, rhaid hefyd ymlacio a chael hwyl. Noson sydd bellach yn rhan o galendr blynyddol *PIMS* yw'r cwis blynyddol rhwng aelodau'r eglwys a'r ifanc. Bu'n galetach brwydr nag arfer eleni gyda'r oedolion ar y blaen yn y rowndiau cyntaf. Ond *PIMS* a orfu gyda llwyddiant ysgubol yn y rownd ar hoff ganeuon Owain Llyr! Nid oes amheuaeth nad yw pobl ifanc Minny Street yn adnabod ei Gweinidog yn dda iawn! Ynghyd â bod yn dipyn o hwyl, estyn y noson hon gyfle unigryw i aelodau hyn yr eglwys gymdeithasu a dod i adnabod ein pobl ifanc yn well. Gan mai'r Creu bu pwnc ein trafodaethau, priodol mai cynllunio Gardd Eden fu tasg un noson! Cafwyd cynlluniau manwl a gofalus o'r ardd ddelfrydol i Gymru 2010; lloches i'r digartref a'r anghenus, anheddau diogel i'r ifanc a'r oedrannus, a chorneli myfyrdod a gweddi i'r rheini sydd angen cymorth ac ymborth ysbrydol. Bu astudio manwl ar y cynlluniau o'u harddangos yn y capel y Sul canlynol. Yna, a hithau'n Etholiad Cyffredinol, rhaid oedd i *PIMS* ddweud eu barn! Rhanwyd aelodau *PIMS* yn bedwar grwp, un i bob un o brif bleidiau Cymru; rhoddwyd i bob grwp grynodeb o faniffesto'r pleidiau a gofynnwyd iddynt baratoi araith fer, 3 munud, ar bolisi eu plaid ar Gymru a'r amgylchfyd. Cafwyd hustyngau gwefreiddiol, dadleuon didwyll a phendant, a phleidlais. Mentraf nodi byddai wedi bod yn braf gweld mwy o boblogaeth Cymru yn dangos yr un dyfnder deall a sylweddoliad blaenoriaethau a welwyd y Minny Street y noson honno.

Daw gweithgarwch y flwyddyn i ben gyda phenwythnos o addoli a hwyl yng Ngholeg yr Iwerydd. A'r cwestiwn sydd ar feddwl pawb ohonom erbyn hyn – dros y blynyddoedd diwethaf buom yn defnyddio Harry Potter, *The Simpsons* a chelfyddyd *Picturing Creation* i ddyfnhau ein deall o Air Duw. Beth fydd gan Owain Llyr ar ein cyfer y flwyddyn nesaf!?!

Hefin